

Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf ym mlwyddyn 6.

### Iaith a Llythrennedd

Yn ystod ein sesiynau iaith y tymor yma byddwn yn parhau i astudio gwahanol genrau megis llythyron, dyddiaduron, barddoniaeth, storïau ac ysgrifen perswad. Byddwn yn gweithio ar y sgiliau addas am bythefnos wrth adeiladu tuag at darn o waith genre gan ddefnyddio strategaethau VCOP, Llais 21 a sgiliau meddwl. Yn Gymraeg byddwn yn darllen llyfr 'Teyrnas Kensuke' fel dosbarth. Byddwn hefyd yn dewis llyfrau darllen am fwynhad yn ogystal a llyfrau ar y lefel cywir i fynd adref yn wythnosol ar Ddydd Gwener a'u dychwelyd ar Ddydd Llun gyda'r cofnodion. Byddwn yn datblygu ein llawysgrifen eleni wrth ddysgu sut i sicrhau safon wrth ffurfio llawysgrifen darllenadwy a chywir. Byddwn yn gweithio'n galed ar ein sillafu wrth ddefnyddio llyfrau i dracio geiriau sillafu personol.

### Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, byddwn yn astudio gymnasteg gan gyfuno symudiadau i wneud dilyniant, gan ystyried yr effaith mae ymarfer corff yn cael ar ein cyrff a'n iechyd meddwl. Themau Jigso y tymor yma yw: Fi yn Fy Myd a Dathlu Gwahaniaethau. Byddwn yn trafod sut mae gweithredoedd yn cael effaith eraill, yn lleol a byd-eang a'r hawliau sydd gan bawb i fod yn nhw eu hunain.

### Mathemateg



Yn ystod ein gwersi mathemateg byddwn yn parhau i ddatblygu a chydblythu sgiliau rhifedd wrth gwblhau problemau wythnosol gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau. Byddwn yn annog y plant i resymu'n ofalus a chymhwyso sgiliau addas er mwyn datrys y broblemau. Am fwy o wybodaeth gallwch edrych ar wefan yr ysgol:

[www.ysgolpenalltau.com](http://www.ysgolpenalltau.com)

### Sut i helpu adref :-

- Darllen yn dyddiol
- Ymarfer geiriau sillafu a llawysgrifen
- Ymarfer sgiliau bywyd e.e sut i glymu lasys

### Thema

Ein thema'r tymor yma yw 'Tywydd a Thrychinebau'. Yn ystod y tymor yma byddwn yn ymchwilio i drychinebau naturiol, gan gynnwys llosgfynyddoedd a daeargrynfeydd. Byddwn yn casglu, dehongli a chymharu data tywydd ar draws y byd gan ddod i gasgliadau am batrymau hinsawdd. Yn ogystal, byddwn yn cynnal nifer o arbrofion ac ymchwiliadau, gan gynnwys ar olau, gwasgedd a chymylau. Yn ein sesiynau dyniaethau, byddwn yn dysgu sut mae tywydd a hinsawdd yn gallu cael effaith ar ddaearyddiaeth y tir. Byddwn yn dysgu sut mae gweithredoedd dynol yn cael effaith ar newid hinsawdd, gan roi nifer o enghreifftiau. I sicrhau profiad dysgu dilys, bydd gan y dysgwyr y cyfle i gyflwyno ymchwil eu hun trwy gynllunio a recordio rhaglen tywydd. Hefyd, byddwn yn archwilio cysylltiadau crefyddol ac anghrefyddol â'r tywydd. **Byddwn yn gweithio ar garreg droedio addas i bob unigolyn wrth astudio'r thema yma.**

### Pethau i gofio:

Llyfrau darllen adref Dydd Gwener ac yn ôl ar Ddydd Llun gyda chofnod.  
Cit ymarfer corff ar Ddydd Gwener.  
Dillad coedlan ar Ddydd Mercher: 30/9, 14/10, 4/11, 18/11  
Diwrnod 'Gwreiddiau Cryf' (Bydd angen dillad coedlan): 6/10

